OFFERYNNAU STATUDOL CYMRU

# 2009 Rhif 3270 (Cy.287)

# AMAETHYDDIAETH, CYMRU

## Rheoliadau Rhaglenni Datblygu Gwledig (Cymru) (Diwygio) 2009

| | |
|---|---|
| *Gwnaed - - - -* | *9 Rhagfyr 2009* |
| *Gosodwyd gerbron Cynulliad Cenedlaethol Cymru - -* | *11 Rhagfyr 2009* |
| *Yn dod i rym - -* | *1 Ionawr 2010* |

Mae Gweinidogion Cymru wedi eu dynodi(**1**) at ddibenion adran 2(2) o Ddeddf y Cymunedau Ewropeaidd 1972(**2**) o ran polisi amaethyddol cyffredin yr Undeb Ewropeaidd, ac maent yn gwneud y Rheoliadau canlynol drwy arfer y pwerau a roddwyd gan yr adran honno a pharagraff 1A o Atodlen 2 i'r Ddeddf honno.

Mae'r Rheoliadau hyn yn gwneud darpariaeth at ddiben a grybwyllir yn adran 2(2) o Ddeddf y Cymunedau Ewropeaidd 1972, ac mae'n ymddangos i Weinidogion Cymru ei bod yn hwylus i unrhyw gyfeiriad at offeryn y Gymuned Ewropeaidd gael ei ddehongli fel cyfeiriad at yr offeryn hwnnw fel y'i diwygir o bryd i'w gilydd.

(**1**) O.S. 2005/2766. Mae'r swyddogaethau a roddwyd i Gynulliad Cenedlaethol Cymru yn arferadwy gan Weinidogion Cymru yn rhinwedd paragraff 30 o ac Atodlen 11 i Deddf Llywodraeth Cymru 2006.

(**2**) 1972 p.68.